# Adroddiad Blynyddol 2015 Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg CFfDLC

## 1 Diben

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi prif waith Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016. Diffinnir rôl ac aelodaeth y Pwyllgor yn y Cylch Gorchwyl (Atodiad 1). Prif rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor annibynnol i Swyddog Cyfrifyddu CFfDLC. Yn ystod 2015-16, ymgymerwyd â rôl Swyddog Cyfrifyddu gan y Prif Weithredwr, Steve Halsall. Yn ystod y flwyddyn mae’r Pwyllgor wedi monitro’r prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, gan ategu hynny gan ganlyniadau’r archwiliadau mewnol ac allanol. Chwaraeodd y Pwyllgor ran allweddol yn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio ac yn monitro ymateb y rheolwyr i’r materion a godwyd.

1.2 Mae’r adroddiad hwn yn disgrifio sut y bodlonodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei gyfrifoldebau yn ystod 2015-16 a chanlyniad y gwaith i wneud gwelliannau pellach i drefniadau llywodraethu a rheoli’r sefydliad. Bwriedir i’r adroddiad roi sicrwydd i lywio Datganiad Llywodraethu’r Swyddog Cyfrifyddu, i’w gynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol CFfDLC ar gyfer 2015-16.

## 2 Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2015-16

<u>Aelodaeth</u>

2.1 Yn ystod 2015-16, ar ôl penodi dau aelod ychwanegol i CFfDLC, penodwyd aelod ychwanegol i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yr aelod Pwyllgor newydd oedd Mr Theodore Joloza, ac mae ei benodiad i’r CFfDLC yn rhedeg o 1 Medi 2015 i 31 Awst 2018, a chytunwyd ei benodiad i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan Aelodau CFfDLC yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2015. Gwasanaethais innau fel Cadeirydd y Pwyllgor, roedd David Powell yn Aelod o’r Pwyllgor a Julie James yn Aelod Annibynnol. Mae Mr Powell a minnau yn Aelod ac yn Ddirprwy Gadeirydd CFfDLC yn y drefn honno, a daeth ein penodiadau i ben ar 30 Medi 2015, ond fe’u hymestynnwyd gan Lywodraeth Cymru am 4 blynedd o 1 Hydref 2015 hyd at 30 Medi 2019. Roedd penodiad Julie James yn Aelod Annibynnol o’r Pwyllgor yn rhedeg am 3 blynedd hyd at 31 Awst 2015, ond fe’i ymestynnwyd gan un flwyddyn hyd at 31 Awst 2016. Hefyd, mynychwyd cyfarfodydd y pwyllgor gan sylwedydd o Lywodraeth Cymru: Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Cymru neu ei Dirprwy.

2.2 Mynychwyd pob cyfarfod hefyd gan yr Archwilwyr Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru / Grant Thornton) a’r Archwilwyr Mewnol (Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Deloitte) i ddarparu cefnogaeth a chyngor i’r Pwyllgor.

Cyfarfodydd

2.3 Roedd tri chyfarfod wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn – 22 Gorffennaf 2015, 24 Tachwedd 2015 a 24 Chwefror 2016. Mynychwyd pob un o'r cyfarfodydd gan David Powell, Julie James a minnau. Mynychwyd cyfarfodydd mis Tachwedd a mis Chwefror gan Theodore Joloza yn dilyn ei benodiad i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2015.

2.4 Mae cofnodion y Pwyllgor yn rhoi manylion y cyfrifoldebau a ddyrannwyd a dyddiadau cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gytunwyd. Mae hyn yn galluogi olrhain cynnydd yn fwy effeithlon o lawer ar gamau gweithredu a gytunwyd, i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau fel y cynlluniwyd neu eu dwyn yn eu blaen. Cyhoeddir cofnodion y Pwyllgor ar wefan CFfDLC.

## 3 Amgylchedd rheoli

Archwilio Mewnol

3.1 Ail-benodwyd Archwilwyr Mewnol CFfDLC, Deloitte, yn 2015 yn dilyn ymarferiad tendro cystadleuol am gontract 5 mlynedd. Yn gyntaf, fe wnaethant gyflwyno'u cynllun archwilio 5 mlynedd ar gyfer 2015/16 ymlaen yn y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2015. Mae cwmpas y gwaith archwilio ar gyfer y 5 mlynedd yn canolbwyntio ar Lywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg a Systemau Ariannol (gan gynnwys caffael) sydd i'w harchwilio'n flynyddol, a hefyd rhaglen archwilio dreigl yn cwmpasu'r agweddau eraill ar waith a rheolaethau CFfDLC, sef:

- Arolygon y Comisiwn;
- Cynllunio Strategol;
- Trefniadau Pensiwn;
- Adnoddau Dynol;
- Diogelwch Gwybodaeth; a
- Rheolaethau Cyffredinol TG.

3.2 Cyflawnir y gwaith archwilio mewnol trwy drafod gydag aelodau staff priodol, darllen dogfennau a chynnal profion, fel bo'r angen, i gadarnhau effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith. Cyflawnir gwaith archwilio mewnol gan fod yn briodol ymwybodol o risgiau twyll a llygredd yn y prosesau dan archwiliad. Pan fydd y gwaith archwilio mewnol wedi'i gwblhau, bydd y canfyddiadau ac unrhyw argymhellion a wnaed yn cael eu trafod mewn cyfarfod ymadael a drefnwyd ymlaen llaw cyn bod adroddiad yr archwilwyr mewnol yn cael ei ddrafftio, ei gytuno gan y rheolwyr a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

3.3 Yn ystod 2015-16, bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r adroddiadau canlynol a ddarparwyd gan Deloitte:

**Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2015-16**

| Maes Archwilio | Dyddiad Rhyddhau | Gwendidau a Nodwyd | | | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth uchel | Blaenoriaeth ganolig | Blaenoriaeth isel | |
| Llywodraethu Corfforaethol | Hydref 2015 | - | - | - | Sylweddol |
| Rheoli Risg | Hydref 2015 | - | - | - | Sylweddol |
| Cynllunio Strategol | Hydref 2015 | - | 1 | 1 | Cymedrol |

**Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015-16**

| Maes Archwilio | Dyddiad Rhyddhau | Gwendidau a Nodwyd | | | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth uchel | Blaenoriaeth ganolig | Blaenoriaeth isel | |
| Rheoli Cyllidebau | Chwefror 2016 | - | - | 2 | Sylweddol |

3.4 Roedd yr adroddiadau hyn yn rhoi graddfeydd sicrwydd Sylweddol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Rheoli Cyllidebau, a graddfa sicrwydd Gymedrol ar gyfer Cynllunio Strategol. Mae’r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod trefniadau CFfDLC yn lleihau’r graddau y mae’n agored i risg. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol rheolwyr CFfDLC.

3.5 Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn derbyn adroddiadau cynnydd ar weithredu’r argymhellion archwilio ym mhob cyfarfod. Yn ystod 2015-16 nodwyd bod nifer o argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol wedi’u hail-godi, naill ai am na fu modd eu gweithredu’n llawn hyd nes bod CFfDLC wedi ymgymryd â mwy o waith arolwg, neu oherwydd absenoldeb tymor hir uwch reolwr.

3.6 Mae ansawdd y gwaith archwilio a gwaith y Pwyllgor wedi’i werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio ac argymhellion, a thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau’r Pwyllgor a’r Archwilwyr Mewnol. Yn ychwanegol at hyn, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfodydd cyfrinachol blynyddol rhwng yr Aelodau a’r Archwilwyr Mewnol yn dilyn cyfarfod o’r Pwyllgor ar 24 Chwefror 2016, a chwblhaodd ymarferiad asesu effeithiolrwydd blynyddol o’r archwilwyr mewnol a rhestr wirio gwerthuso arfer da’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Ar sail y rhain, aseswyd bod perfformiad yr Archwilwyr Mewnol yn effeithiol.

Archwilio Allanol

3.7 Archwilydd Allanol CFfDLC yw Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd wedi penodi Grant Thornton i’w gynorthwyo i gyflawni ei gyfrifoldebau. Cafodd casgliadau’r Archwiliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15 a gynhwyswyd yn Llythyr Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 24 Tachwedd 2015. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2014-15 ac ni chodwyd unrhyw argymhellion archwilio.

3.8 O 1 Ebrill 2015 yn dilyn ymarferiad caffael gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio, terfynwyd rôl archwilydd allanol CFfDLC, sef Grant Thornton, ac ymgymerodd Swyddfa Archwilio Cymru â’r rôl honno. Bydd hyn yn cwmpasu’r archwiliad o ddatganiadau a chyfrifon ariannol CFfDLC ar gyfer 2015-16 ymlaen. Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru eu Cynllun Archwilio 2016 ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2015-16 CFfDLC i gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2016. Roedd y ddogfen hon yn egluro cyfrifoldebau cymharol CFfDLC a Swyddfa Archwilio Cymru.

Effeithiolrwydd ac Effaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

3.9 Cwblhaodd y Pwyllgor ei ymarferiad hunanasesu blynyddol ac adroddwyd am yr holl faterion yn deillio o’r ymarferiad hwn yn adroddiad y llynedd. Cwblhaodd Aelodau’r Pwyllgor holiadur 2015-16 ym mis Rhagfyr 2015 a’i ddychwelyd i Ysgrifenyddiaeth CFfDLC i ddadansoddi’r ymatebion. Roedd yr ymatebion yn dynodi y bu cydymffurfio yn y mwyafrif o feysydd, ond bod rhai materion yn parhau ynglŷn â’r broses ar gyfer ymsefydlu aelodau Pwyllgor newydd.

3.10 Yn ystod 2015-16 dangoswyd effaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar CFfDLC gan y camau canlynol a chynigion ar gyfer newid a gafodd eu derbyn / mabwysiadu gan CFfDLC:

- awgrymodd newidiadau ac ychwanegiadau i Gofrestri Risg CFfDLC trwy gydol y flwyddyn;
- awgrymodd ddau newid i bolisi Rheoli Risg CFfDLC;
- awgrymodd brawf ychwanegol ar gyfer Cynllun Parhad Busnes CFfDLC;
- awgrymodd fod CFfDLC yn ymchwilio i Gynllun Asesu Iechyd y Gweithle Bach gan Lywodraeth Cymru, gyda’r bwriad o gyfranogi ynddo;
- ymgynghorodd â, a chafodd farnau, cyrff archwilio allanol nad oes gan CFfDLC gysylltiad â nhw yn ystod busnes arferol;
- cafodd sicrwydd ar brosesau rheoli a threfniadau ar gyfer delio â thwyll, a rhoddodd ddealltwriaeth o hyn i’r archwilwyr allanol ar ran y Comisiwn;
- drafftiodd ddadansoddiad o Ffynonellau Sicrwydd CFfDLC ynghyd ag unrhyw fylchau yn y sicrwydd; ac
- adolygodd y drafft cyntaf o Ddatganiad Llywodraethu CFfDLC a diwygiadau arfaethedig, er mwyn ei symud tuag at arfer gorau.

3.11 Cafodd CFfDLC sicrwydd hefyd drwy dderbyn adroddiadau yn nodi canlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â chopïau o gofnodion y cyfarfodydd.

## 4 Cydweithredu rhwng yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol.

4.1 Roedd y Pwyllgor yn fodlon fod yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda'i gilydd i leihau lefel unrhyw waith dyblygedig ac arwain at ymdriniaeth archwilio effeithlon ac effeithiol. Cadarnhawyd hyn gan arsylwi a gwerthuso trwy gydol y flwyddyn ac yn y cyfarfod cyfrinachol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr Mewnol a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2016.

4.2 Yn sgil y newid i drefniadau archwilio allanol, bu'n rhaid gohirio'r cyfarfod cyfrinachol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr Allanol newydd hyd nes yr haf 2016.

## 5 Llywodraethu Corfforaethol

5.1 Yn ystod 2015-16 mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi parhau i gynnal safonau uchel mewn Llywodraethu Corfforaethol a rheolaethau mewnol. Yn ystod 2014-15 fe wnaeth y Pwyllgor:

- Adolygu a diweddaru ei Gylch Gorchwyl;
- Adolygu a diweddaru ei Gynllun Gwaith Blynyddol;
- Parhau â'r arfer o gael ei Aelodau i lenwi holiadur hunanasesu blynyddol;
- Parhau â'r arfer o gael Aelodau a'r Swyddog Cyfrifyddu i lenwi holiadur blynyddol i asesu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol;
- Parhau â'r arfer o gynnal cyfarfod cyfrinachol blynyddol rhwng Aelodau a'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol;
- Cadarnhau effeithiolrwydd yr Archwilwyr Mewnol yn ystod y flwyddyn drwy gynnal yr ymarferiad blynyddol i asesu'r archwilwyr mewnol;
- Derbyn adroddiadau cynnydd ar weithredu argymhellion yr archwilwyr ym mhob cyfarfod;
- Derbyn adroddiad ar brawf Cynllun Parhad Busnes y Comisiwn ar gyfer 2015-16;
- Derbyn adroddiad ar restr colledion y Comisiwn ar gyfer 2014-15;
- Derbyn adroddiad ar ymarferiad y Comisiwn i wirio asedau sefydlog ar gyfer 2015-16;
- Derbyn adroddiad ar ganlyniad adolygiad Buddsoddwyr Mewn Pobl y Comisiwn;
- Derbyn adroddiad ar adolygiad y Comisiwn o'i weithdrefnau Sicrhau Ansawdd;
- Derbyn adroddiad ar newidiadau i Gylch Gorchwyl y Comisiwn;
- Cadarnhau bod y Comisiwn wedi cynnal systemau boddhaol ar gyfer monitro cyllidebau, adolygu rheolaeth risg, chwythu'r chwiban a thwyll, diogelwch data TG a rhoddion a lletygarwch;
- Derbyn adroddiad ar newidiadau i drefniadau bancio'r Comisiwn;
- Mabwysiadu dogfen yn nodi manylion ffynonellau sicrwydd CFfDLC ar gyfer meysydd allweddol, gan ddefnyddio'r model 'tair llinell amddiffyn';

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon y gallai Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn gael sicrwydd sylweddol fod trefniadau rheoli, risg a llywodraethu'r Comisiwn yn 2015-16 yn darparu sail gadarn a rhesymol iddo gwblhau'r Datganiad Llywodraethu.

## 6 Rheoli Risg

6.1 Roedd dull CFfDLC o reoli risg wedi dangos ei fod yn fecanwaith effeithiol ar gyfer adnabod a lliniaru risgiau, ac mae'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd wedi'u cymeradwyo gan archwilwyr y Comisiwn. Adolygwyd y Gofrestr Risg ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod 2015-16 a gwnaed addasiadau yn dilyn awgrymiadau gan aelodau. Cadarnhawyd y rhain yn ddiweddarach gan CFfDLC. Mae'r Pwyllgor yn parhau'n fodlon fod y gofrestr yn ddogfen fyw a'i bod yn adlewyrchu'n gywir y risgiau y mae CFfDLC yn eu hwynebu wrth iddynt ddod i'r amlwg, a'u heffaith debygol. Mae'r gofrestr risg hefyd yn nodi'r camau gweithredu gan y rheolwyr i liniaru a chael gwared ar y risgiau.

6.2 Yn ystod 2015-16 y prif risgiau a nodwyd ac a reolwyd gan CFfDLC oedd:

| **Risg a Nodwyd** | **Cam Gweithredu i Liniaru** |
|---|---|
| Nid yw'r Comisiwn yn gallu cynllunio'i raglen waith arolygon etholiadol am y ddwy flynedd nesaf oherwydd y diffyg penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol tra'n disgwyl canlyniad etholiad CCC 2016. | Ymateb cyflym i unrhyw newid a hyblygrwydd yn rhaglen waith y dyfodol.<br>Defnyddio Llythyr(au) Cylch Gwaith 2016-17 gan Lywodraeth Cymru i lywio blaengynllunio.<br>Diweddaru cynlluniau a chyllideb y rhaglen arolygon ar sail y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru.<br>Cysylltu â Llywodraeth Cymru i rannu polisi ac arfer sy'n datblygu.<br>Ymateb yn gynnar i ymgynghoriad LlC ar y Cyfarwyddyd drafft.<br>Parhau i gysylltu â swyddogion LlC i geisio sicrhau'r diwygiadau a ddymunir gan y Comisiwn. |
| Nid yw'r Comisiwn yn gallu cynllunio'i raglen waith arolygon cymunedol yn y tymor canolig / tymor hir oherwydd y diffyg penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol tra'n disgwyl canlyniad etholiad CCC 2016. | Diweddaru cynlluniau a chyllideb y rhaglen arolygon ar sail y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru<br>Darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar y Bil drafft a gyhoeddwyd.<br>Cysylltu â Llywodraeth Cymru i rannu polisi ac arfer sy'n datblygu.<br>Ymateb yn gynnar i ymgynghoriad LlC ar y Cyfarwyddyd drafft.<br>Parhau i gysylltu â swyddogion LlC i geisio sicrhau'r diwygiadau a ddymunir gan y Comisiwn. |
| Dim trefniant wrth gefn ar gyfer colli aelodau staff allweddol i ymdrin â gwaith arolwg a gofynion llywodraethu. | Newid o staff wedi'u secondio i staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol.<br>Cyfarwyddiadau Desg ar gyfer yr holl brosesau allweddol i'w cadw a'u diweddaru.<br>Cynllun Olyniaeth i'w ddrafftio.<br>Sylfaen ehangach ar gyfer cyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnig i'r holl staff er mwyn annog dilyniant.<br>Dylid gwreiddio diwylliant y Comisiwn yn y staff drwy Strategaeth Gorfforaethol, Cyfarfodydd a thrafodaethau tîm a rheolwyr, a Pholisïau, arferion, gweithdrefnau a chyfarwyddiadau desg.<br>Rolau staff allweddol i'w cysgodi gan staff eraill.<br>Archwiliad o sgiliau i'w gynnal.<br>Parhad cyllid i gael sylw yn Cynllun Parhad Busnes<br>Eglurhad o'r prif weithdrefnau cyllid i'w darparu i'r staff.<br>Ystyried yr angen am secondiad neu benodiad tymor byr staff ychwanegol. |
| Prydles yr adeilad heb ei adnewyddu ar delerau sy'n ffafriol i'r Comisiwn. | Cael tystiolaeth o adran Ystadau / adran Gyfreithiol LlC ynglŷn â beth yw hawliau'r Comisiwn mewn perthynas ag adnewyddu'r brydles ar gyfer Tŷ Hasting.<br>Cael cyngor cyfreithiol annibynnol pellach er mwyn cadarnhau cyngor LlC.<br>Cysylltu â'r landlord fel bo'r angen. |

6.3 Caiff y risgiau oedi i gynllunio rhaglenni gwaith arolwg tymor byr a thymor hir y Comisiwn yn y dyfodol oherwydd y diffyg ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol tra'n aros am ganlyniad etholiad CCC 2016 eu lliniaru i raddau helaeth drwy gysylltiad agos â swyddogion Llywodraeth Cymru i rannu proffiliau cyllidebau amcangyfrifedig ynghyd â pholisi ac arfer sy'n dod i'r amlwg, a chyfranogi yn ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni diwygiadau a ddymunir i ddeddfwriaeth.

6.4 Cafodd y risg mewn perthynas â cholli aelodau staff allweddol ei lliniaru drwy newid o staff ar secondiad i staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol, sefydlu a chynnal strwythur staff cadarn a sicrhau bod yr holl bolisïau a chyfarwyddiadau desg yn cael eu diweddaru.

6.5 Mae'r risg mewn perthynas ag adnewyddu prydles yr Adeilad yn dilyn cyfnod o newidiadau sylweddol i drefniadau landlord, gan gynnwys trosglwyddo'r les i landlordiaid newydd. Caiff y risgiau sy'n ymwneud â thelerau prydles llai ffafriol a gofyniad posibl i adleoli ar adeg pan fo angen sefydlogrwydd er mwyn cynnal gwaith arolwg eu lliniaru trwy gysylltu'n agos ag Ystadau Llywodraeth Cymru (deiliad y brydles ar ran y Comisiwn) a thrwy gael cyngor cyfreithiol ynglŷn â hawliau'r Comisiwn.

<u>Ystyried y Ffynonellau Sicrwydd</u>

6.6 Caiff CFfDLC sicrwydd o ffynonellau amrywiol fel adroddiadau cyfarfodydd ac ati. Mae manylion y prif feysydd sicrwydd a'u ffynonellau yn cael eu rhoi yn Atodiad 2.

## 7 Cyllideb 2015-16 a Datganiadau Ariannol 2014-15

7.1 Aeth y Pwyllgor ati i adolygu proses fonitro cyllideb CFfDLC ar gyfer cyllideb 2015-16 ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn, ac roedd o'r farn ei bod yn briodol ac yn gadarn. Nododd y Pwyllgor fod CFfDLC wedi ymgynghori'n llawn â Llywodraeth Cymru ynglŷn â gofynion cyllideb y dyfodol ar gyfer 2016-17 ymlaen er mwyn bodloni gofynion ei raglen gwaith arolygon yn y dyfodol. Adolygodd y Pwyllgor y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2014-15 ym mis Mehefin 2015 cyn cynnal yr archwiliad. Ystyriodd adroddiad yr Archwilydd ac unrhyw faterion a oedd yn weddill. Cymerwyd camau wedyn i sicrhau bod y Comisiwn yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a oedd yn weddill er mwyn galluogi cyhoeddi barn ddiamod ar 4 Awst 2015.

## 8 Casgliad

8.1 Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael mae'r Pwyllgor wedi gweithredu i safon uchel yn ystod y flwyddyn ac wedi cael effaith gadarnhaol ar CFfDLC, gan wella

arfer da. Mae'r Pwyllgor wedi cael sicrwydd priodol, dibynadwy a chynhwysfawr ar amgylchedd rheoli mewnol CFfDLC, ei adroddiadau ariannol a'i allu i reoli risgiau. Mae'r Pwyllgor yn fodlon y gall Swyddog Cyfrifyddu CFfDLC fod yn sicr i raddau helaeth fod trefniadau rheoli, risg a llywodraethu CFfDLC yn 2015-16 wedi darparu sail gadarn a rhesymol iddo gwblhau'r Datganiad Llywodraethu.

## 9 Cydnabyddiaethau

9.1 Rwyf yn ddiolchgar i David Powell, Theo Joloza a Julie James fel aelod ac aelod annibynnol o'r Pwyllgor yn y drefn honno am eu gwaith, eu cyfraniad, eu cymorth a'u cefnogaeth. Mae gwaith rheolwyr CFfDLC, gyda chefnogaeth staff eraill, wedi bod yn ganolog i'n gwaith, a gwerthfawrogir eu cyfraniadau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Lisa James o Lywodraeth Cymru ac i Ann-Marie Harkin o Swyddfa Archwilio Cymru, John Golding a Julie Masci o Grant Thornton ac Ian Howse a Katherine Shafer o Deloitte. Mae eu cymorth a'u cyngor wedi bod yn fuddiol ac adeiladol iawn yn ystod y flwyddyn.

Ceri Stradling
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg CFfDLC
Ebrill 2016

**Atodiad 1**

**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRHAU RISG**

**CYLCH GORCHWYL**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) wedi sefydlu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'w gefnogi gyda'i gyfrifoldebau'n ymwneud â materion risg, priodoldeb ariannol, rheolaeth a llywodraethu mewnol a sicrwydd cysylltiedig. Gan y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu y mae'r cyfrifoldeb o dan delerau Dogfen Fframwaith y Comisiwn a'r Llythyr Cylch Gwaith blynyddol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, am ddarparu rheolaethau mewnol digonol a bydd yn ystyried cyngor y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel y bo'n briodol. Newidiwyd enw'r Comisiwn i Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn weithredol o 30 Medi 2013, gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

1.2 Mae'r Comisiwn hefyd yn darparu ysgrifenyddiaeth i Gomisiwn Ffiniau seneddol i Gymru o dan Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn, Llywodraeth Cymru, Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. O dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bydd y Comisiwn yn darparu un sicrwydd archwilio ar gyfer y ddau gorff.

1.3 Penodwyd Prif Weithredwr y Comisiwn fel y Swyddog Cyfrifyddu gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru, yn effeithiol o 1 Ionawr 2014.

## 2. Aelodaeth

2.1 Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei gadeirio fel arfer gan Aelod o'r Comisiwn (cyhyd ag y bo profiad perthnasol ganddo/ganddi) ond bydd yr arfer hwn yn agored i'w adolygu. Ni ddylai Cadeirydd y Comisiwn fod yn Gadeirydd nac yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

2.2 Aelodau eraill y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw:

- Aelod Allanol Annibynnol wedi'i benodi; a
- 2 Aelod o'r Comisiwn (heblaw am y Cadeirydd).

2.3 Bydd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei hadolygu o dro i dro.

## 3. Adrodd

3.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adrodd yn ffurfiol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ar ôl bob cyfarfod.

3.2 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i amseru i gefnogi cwblhau'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn.

3.3 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

## 4. Cyfarfodydd

4.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg alw cyfarfodydd ychwanegol fel y gwêl yn angenrheidiol.

4.2 Mae amseru'r cyfarfodydd a'r meysydd gwaith i ymdrin â hwy wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Gwaith Blynyddol y Pwyllgor. Dylai'r Cynllun Gwaith Blynyddol gael ei ddrafftio erbyn 1 Ebrill a'i adolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg cyn ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor i roi sylwadau arno.

4.3 Bydd lleiafswm o 2 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd, yn bresennol ar gyfer y cyfarfod i ystyried bod ganddo gworwm.

4.4 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu mynychu fel arfer gan y Swyddog Cyfrifyddu, y Dirprwy Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Cymorth Busnes a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol, ac Is-adran Noddi Llywodraeth Cymru y Comisiwn.

4.5 Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw swyddogion eraill neu Aelodau o'r Comisiwn fynychu i gynorthwyo gyda'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

4.6 Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw rai neu bob un o'r rhai sy'n mynychu fel arfer ond nad ydynt yn aelodau dynnu'n ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll am faterion penodol.

4.7 Gall y Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg alw cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol y maent eisiau cyngor y Pwyllgor arnynt.

4.8 Bydd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfod cyfrinachol gyda chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol bob blwyddyn i gael eu hadborth ar effeithiolrwydd y Pwyllgor ac unrhyw faterion eraill mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Comisiwn. Ni fydd y trefniant hwn yn atal unrhyw gyfarfodydd ychwanegol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

## 5. Awdurdod a Hawliau

5.1 Awdurdodir y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gan y Comisiwn i ymchwilio i unrhyw weithgarwch o fewn ei gylch gorchwyl. Fe'i awdurdodir i ofyn am unrhyw wybodaeth y mae ei hangen arno gan weithiwr neu Aelod o'r Comisiwn, a chyfarwyddir pob gweithiwr ac Aelod i gydweithredu ag unrhyw gais gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn sicrhau bod polisïau llywodraethu corfforaethol digonol ar waith gan y Comisiwn drwy adolygu'r Llywodraethu Corfforaethol ym mhob cyfarfod.

5.2 Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nid hwy na blwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol.

5.3 Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gaffael cyngor ad-hoc arbenigol ar gost y Comisiwn yn amodol ar gyllidebau a gytunwyd gan y Comisiwn.

## 6. Mynediad

6.1 Bydd mynediad rhydd a chyfrinachol rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

6.2 Bydd mynediad rhydd a chyfrinachol rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## 7. Cyfrifoldebau

7.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ar:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr i'r archwilwyr allanol;
- y gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio a chanlyniadau'r archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol;
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a amlygwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys adroddiad ISA 260 a llythyr rheoli'r archwilwyr allanol;
- sicrwydd yn ymwneud â'r gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y sefydliad;
- cadernid trefniadau monitro'r gyllideb;
- cynigion ar gyfer tendro naill am ai wasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol neu am brynu gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- cynigion ar gyfer materion cyfrifyddu dadleuol fel eithriadau ac esemptiadau cydymffurfio.

## 8. Gofynion gwybodaeth

8.1 Darperir y wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel y bo'n briodol:

- Adroddiad unrhyw adolygiadau o Gofrestr Risg a Pholisi Rheoli Risg y Comisiwn;
- Y Cynllun Archwilio Mewnol;
- Amlinelliad Archwilio Blynyddol yr Archwilwyr Allanol;
- Adroddiadau cynnydd oddi wrth gynrychiolydd yr Archwilwyr Mewnol yn crynhoi gwaith a gyflawnwyd, materion allweddol sy'n dod i'r amlwg, ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio ac unrhyw faterion adnoddau yn effeithio ar gyflawni amcanion archwilio mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol;
- Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
- Datganiadau Ariannol drafft a chyfrifon statudol y Comisiwn cyn eu harchwilio gan yr Archwilwyr Allanol;
- Datganiadau Ariannol a chyfrifon statudol drafft y Comisiwn cyn eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu;
- Y Datganiad Llywodraethu drafft;
- Llythyr Rheoli'r Archwilwyr Allanol;

- Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- Newidiadau i'r Cynllun Gweithredol;
- Adroddiad ar ystyriaethau cyllideb;
- Adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio.

## 9. Cofnodion

9.1 Bydd Cofnodion ei gyfarfodydd yn cael eu cylchredeg i Aelodau'r Comisiwn a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

## 10. Adolygu Cylch Gorchwyl

10.1 Bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac i adlewyrchu unrhyw newidiadau i statws y Comisiwn.

## 11. Dyddiad y Ddogfen: Tachwedd 2015

## Atodiad 2

| **Meysydd Allweddol sy'n mynnu Sicrwydd** | **Ffynonellau Sicrwydd** | | |
|---|---|---|---|
| | Lefel 1[af] | 2[il] lefel | 3[edd] lefel |
| Llywodraethu, Gwneud Penderfyniadau ac atebolrwydd | Gofynion y Swyddog Cyfrifyddu.<br><br>Strwythur trefniadol.<br><br>Cynllun dirprwyo.<br><br>Polisïau a Gweithdrefnau. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Comisiwn am benderfyniadau a wnaed neu benderfyniadau i'w cymeradwyo.<br><br>Amserlen ar gyfer adolygiadau polisi gan y Comisiwn.<br><br>Strwythurau i'w hadolygu'n gyson gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Comisiwn.<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar Lywodraethu Corfforaethol - gwahanu dyletswyddau a chydymffurfio â rheolaethau.<br><br>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu polisïau uniondeb o dro i dro.<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu. |
| Rheoli Risgiau | Polisi Risg a Threfniadau Rheoli. | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar waith ac yn cael ei adolygu gan y Comisiwn fel rhan o'r Gofrestr Risg.<br><br>Mae'r Comisiwn yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn fisol.<br><br>Mae'r Gofrestr Risgiau Gweithredol yn cael ei hadolygu gan y Tîm Rheoli, a gosodir pwynt sbardun ar gyfer gwerthuso risgiau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.<br><br>Mae'r Gofrestr Risgiau Pensiynau yn cael ei hadolygu gan y Tîm Rheoli. | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r Cofrestri Gweithredol a Chorfforaethol ym mhob cyfarfod.<br><br>Adroddiad Blynyddol gan yr Archwilwyr Mewnol ar Reoli Risg. |
| Cynllunio Strategol | Llythyr Cylch Gwaith LlC ac adroddiadau'r Cynllun Gweithredol i gyfarfodydd y Comisiwn. | Adroddiad Cynllun Strategol i gyfarfodydd y Comisiwn.<br><br>Y Comisiwn yn cytuno ar weledigaeth ac amcanion lefel uchel ar gyfer y sefydliad. | Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar Gynllunio Strategol. |
| Bod yn Agored a Thryloywder | Gwefan gynhwysfawr yn bodloni disgwyliadau o ran bod yn agored a thryloywder. | Datganiad Polisi Tâl | Datganiad Llywodraethu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwerthoedd a Diwylliant | Y Tîm Rheoli yn pennu gwerthoedd a diwylliant ar gyfer staff gan ategu hynny â Hyfforddiant a phroses Adolygu Perfformiad a Datblygiad. | Ymagwedd y Comisiwn at fod yn agored, gonestrwydd ac atebolrwydd yn cyd-fynd ag ymagwedd y Tîm Rheoli.<br><br>Datganiad Llywodraethu. | Adroddiadau i'r Comisiwn ar ganlyniadau Arolygon Staff.<br><br>Adroddiadau Buddsoddwyr mewn Pobl.<br><br>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. |
| Arweinyddiaeth | Gofynion y Swyddog Cyfrifyddu. | Y Comisiwn wedi pennu disgwyliadau pendant ar gyfer y sefydliad mewn Strategaethau a Chynlluniau. | Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar Lywodraethu Corfforaethol. |
| Diogelwch Gwybodaeth a Data | Gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth a Data ar waith. | Adolygiad o gydymffurfio gan y Comisiwn. | |
| Cynllunio'r Gweithlu | Adroddiadau wedi'u cynhyrchu gan y Prif Swyddog Gweithredol/ Dirprwy Brif Weithredwr yn nodi anghenion staff.<br><br>Polisi Tâl. | Adroddiadau i Is-Bwyllgor y Gweithlu i'w cymeradwyo. | Cymeradwyaeth y Comisiwn ar newidiadau i'r strwythur staff |
| Datblygu ein staff a'n haelodau | Ymsefydlu a Hyfforddiant Cynhwysfawr.<br><br>Adolygiadau rheolaidd o Berfformiad a Datblygiad. | Adroddiad i gyfarfod y Comisiwn ar ganlyniad adolygiadau Buddsoddwyr mewn Pobl. | Adroddiadau adolygu Buddsoddwyr mewn Pobl. |
| Iechyd, Diogelwch a Lles Staff | Polisi Absenoldeb Salwch.<br><br>Polisi Iechyd a Diogelwch.<br><br>Polisi Urddas yn y Gwaith. | Adroddiadau i Is-Bwyllgor y Gweithlu.<br><br>Adolygiad o gydymffurfio gan naill ai'r Comisiwn neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Polisi Cyfle Cyfartal. | Adolygiad o gydymffurfio gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. | |
| Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg | Cynllun Iaith Gymraeg.<br><br>Safonau'r Gymraeg. | Archwiliadau cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg. | |
| Darparu Gwasanaethau – Gwerth am Arian Adolygiadau o Wasanaethau | Eglurder rolau ar gyfer adolygiadau o wasanaethau<br><br>Amserlenni ar gyfer cyflawni adolygiadau.<br><br>Trefniadau rheoli ansawdd ar waith.<br><br>Cyfarwyddiadau Desg.<br><br>Polisi ac Arfer.<br><br>**COST GWYBODAETH** | Comisiynwyr Arweiniol yn cefnogi'r tîm arolygon ac yn ychwanegu haenen ychwanegol o Reoli Ansawdd. | Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar gydymffurfio â'r trefniadau rheoli ansawdd.<br><br>Ymgynghoriad Statudol. |

| | GOSTAU GYFYNGEDIG AR GYFER AROLYGON UNIGOL | | |
|---|---|---|---|
| Darparu Gwasanaethau – ansawdd archwilio | Proses dendro a gwerthuso cynigwyr yn erbyn meini prawf penodol. | Asesiad parhaus o'r rhaglen waith ac allgynnyrch gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. | Asesiad blynyddol o'r Archwilwyr Mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. |
| Systemau cyllidebau wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol | Cyllid y Llythyr Cylch Gwaith ynghyd â Chyllid Swyddfa'r Cabinet am y flwyddyn.<br><br>Adroddiad pennu'r gyllideb i gyfarfod y Comisiwn | Amcangyfrifon a phroffiliau Cyllidebau'r Dyfodol yn cael eu hadrodd i'r Comisiwn. | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn Adolygu'r System Gyllidebau ar gyfer digonolrwydd.<br><br>Archwilwyr Mewnol yn adolygu Rheolaeth Cyllidebau yn flynyddol |
| Atebolrwydd cyllideb/ dirprwyo'r gyllideb | Cynllun Dirprwyo / awdurdodi. | Adolygiad o'r gyllideb gan y Comisiwn. | Adroddiadau Archwilwyr Mewnol. |
| Risgiau cyllidebol | Adolygiad gan y Tîm Rheoli o risgiau cyllideb yn barhaus. | Risgiau ariannol wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol at sylw'r Comisiwn. | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn goruchwylio adolygiadau'r Comisiwn o risgiau ariannol. |
| Gwybodaeth ariannol a rheolaethau systemau | Cynlluniau dirprwyo, rheolaethau ariannol mewnol a gwahanu dyletswyddau. | Adroddiadau monitro cyllideb yn fisol i'r Comisiwn. | Archwilwyr Mewnol yn adrodd ar lywodraethu a rheolaeth fewnol. |
| Monitro ac adrodd ar y gyllideb | Adroddiadau cyllideb i'r Tîm Rheoli. | Adroddiadau monitro cyllideb yn fisol i'r Comisiwn. | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu adroddiadau cyllideb.<br><br>Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol. |
| Ymchwiliadau i amrywiaethau/ gweithredoedd | Esboniadau ar gyfer amrywio wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cyllideb i gyfarfodydd y Comisiwn. | Cymeradwyo'r gyllideb cyn ac ar ôl newidiadau. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar adolygiadau'r Comisiwn o adroddiadau cyllideb. |
| Rheoli diwygiadau i'r gyllideb | Y Tîm Rheoli yn cytuno i ddiwygiadau i'r gyllideb. | Adroddiadau cyllideb i gyfarfodydd y Comisiwn ar gyfer cymeradwyo trosglwyddo ac ad-dalu i Adrannau. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar adolygiadau'r Comisiwn o adroddiadau cyllideb. |
| Cyfrifon Ariannol | Manyleb cyswllt ac amserlen ar gyfer paratoi Cyfrifon Blynyddol.<br><br>Rheolwr Cyllid yn monitro amseroldeb ac ansawdd. | Cyfrifon drafft wedi'u hanfon at y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'w hadolygu cyn archwiliad. | Adroddiad ISA 260 yr Archwilwyr Allanol a'r Llythyr Rheoli.<br><br>Barn a Thystysgrif Archwilio Flynyddol. |
| Nodi risgiau twyll | Adolygiadau gan reolwyr o'r Gofrestr Risgiau Gweithredol. | Adolygiadau gan y Comisiwn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. | Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol a chamau gweithredu cytûn.<br><br>Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar adroddiad ISA 260 yr Archwilwyr Allanol a'r Llythyr Rheoli. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Strategaeth gwrth-dwyll | Polisïau gwrth-dwyll penodol a mabwysiadu gweithdrefnau newydd e.e. gwirio newidiadau i fanylion cyswllt / banc cyflenwr. | Adolygiadau gan y Comisiwn o'r Polisi Twyll. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar unrhyw achosion o dwyll.<br><br>Yr Archwilwyr Mewnol yn codi ymwybyddiaeth o feysydd risg newydd. |
| Chwythu'r Chwiban | Polisi Chwythu'r Chwiban ac ymwybyddiaeth staff. | Adolygiadau gan y Comisiwn o'r Polisi Chwythu'r Chwiban | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar achosion o Chwythu'r Chwiban. |
| Cwynion | Polisi Cwynion. | Adolygiadau gan y Comisiwn o'r Polisi Cwynion. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar gwynion a dderbyniwyd. |
| Parhad Busnes | Cynlluniau Parhad yn eu lle a phrofion yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd.<br><br>Gweithdrefnau cadw a dinistrio dogfennau yn eu lle. | Adroddiadau diweddaru yn cael eu paratoi i'r Comisiwn.<br><br>Gweithdrefnau'n cael eu hadolygu o dro i dro a'u cymeradwyo gan y Comisiwn. | Adroddiadau Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar brawf Cynllun Parhad Busnes.<br><br>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn derbyn adroddiadau chwarterol a gwybodaeth am achosion o dorri data. |
| Rheoli Asedau Sefydlog | Ymarferiad gwirio asedau wedi'i gynnal. | Hysbysu'r Comisiwn am ganlyniad adolygiadau. | Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar yr ymarferiad gwirio asedau. |
| Colledion | Nodi a Chofnodi gweithdrefnau Colledion. | Cofrestr Colledion. | Adroddiadau Blynyddol i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar golledion am y flwyddyn. |
| Rhoddion a Lletygarwch | Polisi Rhoddion a Lletygarwch. | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch. | Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar Roddion a Lletygarwch. |
| Caffael | Trefniadau caffael ar waith gan gynnwys gweithdrefnau tendro ffurfiol.<br><br>Diwydrwydd dyladwy wrth ddelio â chwmnïau nad ydynt o bosibl yn foesegol | Adroddiadau i gyfarfodydd y Comisiwn ar ymarferiadau tendro. | Adroddiadau gan yr Archwilwyr Mewnol ar drefniadau caffael. |
| Materion Amgylcheddol | Gweithdrefnau cynaliadwyedd wedi'u sefydlu, ac ymwybyddiaeth staff. | Y Comisiwn yn ystyried canlyniad Archwiliad y Ddraig Werdd. | Adroddiad Archwiliad y Ddraig Werdd. |